



## Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 1 Mawrth 2022 am 6.00yh  
yn rhithiol ac yn Ystafell Gynhadledd, 36 Pendre, Aberteifi  
mewn lein a canllawiau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 1 March 2022 at 6.00pm  
virtually and at the Conference Room, 36 Pendre, Cardigan  
in line with guidelines of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021.

**Presennol/**Present—**Y Cynghorwyr/Councillors** Debra Griffiths (**yn y gadair** / in the chair), Trystan Phillips, Clive Davies, John Adams-Lewis, Graham Evans, Catrin Miles, Richard Jones, Morvenna Richards, Shan Williams, Steffan Morgan, Yvonne O'Neill, Llinos Haf Jones (**Cyfieithydd** / Translator) Michael Lewis (Tivyside), Eleri Maskell (**Clerc/Clerk**) Delyth Phillips (**Clerc cyflewni**/Cover Clerk).

**1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.**

**Croesawodd Y Cyng Debra Griffiths bawb i'r cyfarfod.**

**The Chair's Welcome and Personal Matters.**

Clr Debra Griffiths welcomed everyone to the meeting.

**2. I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb**

**Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb a cytuno a'r rhesymau a roddwyd.**

**Y Cyng Elaine Evans a Siân Maehrlein.**

**To receive apologies for absence**

To receive, and consider for approval, apologies for absence and reasons given.

Clrs Elaine Evans and Siân Maehrlein.

**3. I dderbyn datganiadau o ddiddordeb**

**Atgoffir aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ar unrhyw eitem ar yr Agenda hon ar yr adeg hon neu ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod yn unol â Chod Ymddygiad Cyngor Tref Aberteifi.**

**To receive declarations of interest**

Members are reminded to declare any interest on any item on this Agenda at this point or at any point during the meeting in accordance with Cardigan Town Council's Code of Conduct.

Y Cyng / Clr John Adams-Lewis	Materion Cynllunio / Planning Matters
-------------------------------	---------------------------------------

**4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

**I gytuno a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth 1 Chwefror 2022. Cynigiwyd y Cyngorwyr bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fawrth 1 Chwefror yn gywir.**

**I gytuno a llofnodi cofnodion y cyfarfod is-bwyllgor a gynhaliwyd nos Fawrth 8**

## Chwefror 2022.

Cynigiwyd y Cynghorwyr bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fawrth 8 Chwefror yn gywir.

### Minutes of last meeting

To approve and sign minutes of the meeting held on Tuesday 1 February 2022.

The Councillors proposed that the 1 February council minutes be recorded as correct.

To approve and sign minutes of the sub-committee meeting held on Tuesday 8 February 2022.

The Councillors proposed that the 8 February council minutes be recorded as correct.

## 5. Adroddiad y Clerc

**I dderbyn adroddiad gan Glerc y dref yn amlinellu'r camau a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2022.**

**Mae'r Clerc yn dymuno cadarnhau y bydd Mrs Delyth Phillips (Clerc Cyngor Cymuned Ferwig a Penparc) yn cymryd yr awenau am gyfnod o dair wythnos i gyflewni yn ei habsenoldeb.**

### Clerk's report

To receive a report from the Town Clerk outlining actions taken following the meeting held on 2 February 2021.

The Clerk wishes to confirm that Mrs Delyth Phillips will take over the role for the duration of three weeks to cover her absence.

## 7. Eitemau i'w cymryd mewn sesiwn breifat

**I benderfynu pa eitemau, os o gwbl, o'r Agenda y dylid eu cymryd gyda'r cyhoedd wedi'u gwahradd.**

**Cais trwyddedu gan y Saddlers Arms i ymestyn oriau ar agor. Nid oedd cefnogaeth i unrhyw fath o estyniad.**

### Items to be taken in private session

To determine which items, if any, of the Agenda should be taken with the public excluded.

Saddlers Arms application to vary the premises licence was discussed by councillors. There was no support for any form of extension.

## 8. Cynllunio

**Ystyried ceisiadau cynllunio a derbynir a dadansoddi sylwadau priodol.**

### Planning

To consider planning applications received and resolve to submit appropriate comments.

<i>Rhif y Cais / App. No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
A211182	T Burton, <i>Neuadd Rosario, Heol Aberystwyth, Aberteifi / Rosario Hall, Aberystwyth Road, Cardigan, SA43 1LU.</i>	<i>Estyniad arfaethedig i ochr yr eiddo i gynnwys sied. Estyniad arfaethedig i'r garej a gwaith cysylltiedig / Proposed extension to the side of the property to include a shed. Proposed extension to the garage and associated works.</i>	<i>Dim gwrthwynebiad i'r cais hwn. No objections to this application.</i>

A220053	S Humphries Greggs Plc, 5 Pendre, Aberteifi SA43 1JL.	<i>Cais i arddangos arwyddion /</i> Application to display signage.	<i>Dim gwrthwynebiad i'r cais hwn ond gofyn i unrhyw arwyddion hyrwyddodod yn ddwyieithog.</i> No objections to this application, but request any promotional signage to be bilingual.
---------	---	--	---

## 9. Eitemau i'w hystyried a'u dadansoddi / Items for consideration and resolution

### a) Biliau i'w talu / Bills to be paid

<i>Dyddiad /</i> <i>Date</i>	<i>Disgrifiad / Description</i>	<i>Côd /</i> <i>Code</i>	<i>Rhif y</i> <i>Siec</i> <i>Cheque</i> <i>No.</i>	<i>Swm (TAW) /</i> <i>Sum (VAT)</i>
1/3/22	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor /</i> Rent of Council Office <i>Band Lydan /</i> Broadband Ystafell Gynadledda / Conference room hire (08/02/22 a mis Mawrth)	A9 A20 A9	D/D 5180 5180	£250.00 (0.00) £20.00 (0.00) £50.00 (0.00)
1/3/22	<i>Cyflog y Clerc / Clerk's Salary</i> ( <i>Chwefror/February</i> )	A5	5181	£1181.24 (0.00)
1/3/22	<i>Bachan Deche / Handyperson</i> ( <i>Chwefror/February</i> )	A19	5182	£288.60 (48.10)
15/2/22	<i>Gwasanaeth Cyfieithu / Translation Service</i>	A18	5183	£52.50 (0.00)
27/03/22	Siemens: <i>Prydles y llungopiwr / Lease of photocopier</i>	A7	D/D	£150.00 (25.00)
1/3/22	1 x £150 Allowance for town councillor	A3	5184	£150.00 (0.00)
28/2/22	Tago Internet of Things annual platform renewal	C2	5185	£442.13 (0.00)
16/2/22	David Evans - Engraving	B5	5186	£26.30 (0.00)
24/02/22	<i>Argraffwyr E L Jones Printers</i>	A7	5187	£606.80 (61.80)
1/3/22	GoboPlus Ltd – Ukraine Flag	B1	5188	£237.36(39.56)

### **Derbyniadau/Receipts:**

10/1/2022      Lloyds Bank: *Llog / Interest*      £0.32

### **Cynigodd y Cyngorwyr bod y biliau a restrwyd yn cael eu talu.**

The Councillors proposed that the listed bills be paid.

### b) Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen</i> <i>Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
349	Jamie Horton – <i>Swyddog Datblygu Gwirfoddoli Cymunedol /</i> Community Volunteering Development Officer, CAVS.	<i>Gwybodaeth ar gyfer gweithgareddau cymunedol ar-lein ac yn bersonol ym mis Chwefror – ymgyrch chWefror /</i> Information for on-line and in-person community activities in February – WEbruary campaign.
350	James Lynch – <i>Llwybr cyhoeddus y tu ôl i adeilad y Granary.</i> <i>Albion, Aberteifi /</i> Public footpath behind the Granary Albion, Cardigan.	Ar ôl trafodaeth eang cyтынwyd byddau y Cyng. Catrin Miles yn ymateb gyda'r pryderon a godwyd gan y Cyngor / <i>After a lengthy discussion it was agreed that Cllr. Catrin Miles would form a response on the Council's behalf with the concerns raised.</i>

351	Caroline Wilson – Green Dragon Bus Services: <i>Prynu bws mini trydan ar gyfer gwasanaeth bws ysgol / Purchasing an electric powered minibus for school bus service.</i>	Cefnogaeth mewn egwyddor ond mae cyllid yn fater i ystyried. Ar hyn o bryd fydd y gwasanaeth dref yn cael i ail drefnu i gasglu plant Golwg y Castell ac ati. Fydd y clerc yn edrych mewn i bws trydan erbyn y cyfarfod nesaf. <i>Support in principle but funding is an issue. At present the town service will be redirected to collect pupils at Golwg y Castell etc. Clerk to look into electric powered minibuses by the next meeting.</i>
352	<i>Cylchlythyr Mis Chwefror CIC Hywel Dda.</i> Hywel Dda CHC February Newsletter.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 07/02/2022.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 07/02/2022.
353	Robin Hickin – <i>Gorchmynion rheoleiddio trafïg arbrofol / Experimental traffic regulation orders.</i>	<i>Llythyr wedi nodi/ Letter noted and details of Ceredigion sent.</i>
354	Y Cyng/Cllr Catrin Miles: <i>E-byst ynghylch Gregory Distributions (Holdings) Ltd yn ymwneud â chynnydd mewn traffig yn hen mart Aberteifi / Thread of emails regarding Gregory Distributions (Holdings) Ltd relating to increased traffic at the old mart Cardigan.</i>	Gwybodaeth wedi cael i dosbarthu ynglŷn ar ymgyrch dros ffordd ymadael newydd/ <i>Information shared regarding the campaign for a new slip road.</i>
355	Ian Brown – <i>Pennaeth adnoddau, Dŵr Cymru: Cynllun drafft rheoli adnoddau dŵr 2021, rhag-ymghynghoriad / Draft water resources management plan 2021, pre-consultation.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 08/02/2022.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 08/02/2022.
356	OPCC Communication – Heddlu Dyfed-Powys Police.	<i>Gwahoddiad Cynhadledd Comisiynydd Heddlu a Throsedd / Police and Crime Commissioner Conference Invitation.</i>
357	Lowri Edwards – <i>Dirprwy Swyddog Canlyniadau CSC / Deputy Returning Officer CCC: Newidiadau i wardiau etholiadol Ceredigion electoral ward changes.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 11/02/2022.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 11/02/2022.
358	Ageing Well in Wales – <i>Cyfleoedd a Digwyddiadau / Opportunities and Events.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 11/2/2022.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 11/2/2022.
359	Sarah Williams – <i>Swyddog Gweithredol Rhaglen Natur a Ni / Nature and Us Programme Executive: - Y sgwrs genedlaethol am amgylchedd naturiol Cymru / The national conversation about Wales' natural environment.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 14/2/2022.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 14/2/2022.
360	Y Cyng/Cllr Catrin Miles, Llŷr Edwards Barcud: <i>Ffens y maes chwarae, Awel yr Afon, Aberteifi / Play area fence Awel yr Afon, Cardigan.</i>	Y Cyngorwyr yn hapus gyda'r ffens newydd o safon da sydd wedi cael i osod./ <i>Councillors happy with the new chicken wire fence which has been installed to a good standard.</i>
361	Sarag Bowen – <i>Cydlynnydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol / Community Cohesion Officer.</i>	<i>Digwyddiad ar-lein rhad ac am ddim – cydlyniant yn ein cymunedau / Free on-line event – cohesion in our communities.</i>
362	<i>Comisiwn Ffiniau i Gymru – Gwrandawiadau cyhoeddus.</i> Boundary Commission for Wales – Public Hearings.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 17/2/2022.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 17/2/2022.
363	Gill Byrne – <i>Dyddiadau sesiynau chwarae RAY yn yr hanner tymor / RAY play sessions dates for half term.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 17/2/2022.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 17/2/2022.
364	<i>CSC Adain Cau Ffyrdd: Cau ffordd dros dro ar 14 /03/2022 – 04/04/2022; 07.00-18.00 – Stryd Morgan a Carrier's Lane, Aberteifi / CCC Road Closures Section, Temporary Road closure order on 14/03/2022 – 04/04/2022 at 07.00-18.00 – Morgan Street and Carrier's Lane, Cardigan.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 21/2/2022.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 21/2/2022.

365	<i>Cylchlythyr Chwefror Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru / Older People's Commissioner's Newsletter February.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 23/2/2022.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 23/2/2022.
366	<i>Leighton Jones – Ysgrifenyddiaeth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, Democratiaeth Llywodraeth Leol / Secretariat to the Independent Remuneration Panel for Wales, Local Government Democracy.</i>	<i>Adroddiad blynyddol 2022 i 2023.</i> Annual report 2022-2023.
367	<i>Caryl Bond – Swyddog Cymorth Sicrwydd, Heddlu Dyfed Powys / Assurance Support Officer, Dyfed Powys Police.</i>	<i>Cyfle i ymuno â'r Cyd-Bwyllgor Archwilio / Opportunity to join the Joint Audit Committee.</i>
368	<i>CSC Adain Cau Ffyrdd: Cau ffordd dros dro ar 21 /03/2022 – 25/03/2022; 07.30-19.00 – Maes Parcio Greenfield Square, Aberteifi / CCC Road Closures Section, Temporary Road closure order on 21/03/2022 – 25/03/2022 at 07.30-19.00 – Greenfield Square Car Park, Cardigan.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 21/2/2022.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 21/2/2022.
368	<i>Lowri Jones – Golwg: Holi canitâd i rhoi stondin tu fas y Factory Shop ar dydd Sadwrn Barlys / Asking for permission to have a stall outside the Factory Shop on Barley Saturday.</i>	<i>Bydd angen i Lowri holi y siopau/busnesau am yr hawl i osod stondyn – does ddim hawl gan y Cyngor rhoi caniatad. Lowri will need to ask the shops/businesses involved for permission to set up the stall – it is not the Councils responsibility.</i>
369	<i>Un Llais Cymru / One Voice Wales:</i>	<i>Bwletin Newyddion / News Bulletin</i>
370	<i>Theatr Mwldan: Cais am gymorth ariannol / Application for financial support.</i>	<i>I'w trafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants Sub-committee.
371	<i>Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen: Cais am gymorth ariannol / Llangollen International Musical Eisteddfod: Application for financial support.</i>	<i>I'w trafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants Sub-committee.
372	<i>Ambiwlans Awyr Cymru: Cais am gymorth ariannol / Welsh Air Ambulance: Application for financial support.</i>	<i>I'w trafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants Sub-committee.

**c) Ethol Maer-Etholedig Cyngor Tref Aberteifi am 2022-23**  
**Cynigiwyd gan y Cyng Debra Griffiths ac eiliwyd gan y Cyng Catrin Miles bod y Dirprwy-Faer, y Cyng Trystan Phillips, i'w ethol yn Faer-Etholedig Cyngor Tref Aberteifi am y flwyddyn 2022-23. Roedd y cyngor yn unfrydol.**

Election of Cardigan Town Council Mayor-Elect for 2022-23.  
It was proposed by Cllr Debra Griffiths and seconded by Cllr Catrin Miles that the Deputy Mayor, Cllr Trystan Phillips, be elected Cardigan Town Council Mayor-Elect for the year 2022-23. Members were unanimous in their decision.

**d) Ethol Dirprwy-Faer Etholedig Cyngor Tref Aberteifi am 2022-23**  
**Cynigiwyd gan y Cyng Clive Davies ac eiliwyd gan y Cyng John Adams Lewis bod y Cyng Steffan Morgan i'w hethol yn Ddirprwy-Faer Etholedig Cyngor Tref Aberteifi am y flwyddyn 2022-23.**

Election of Cardigan Town Council Deputy Mayor-Elect for 2022-23.  
Cllr Clive Davies proposed that Cllr Steffan Morgan be elected Cardigan Town Council Deputy Mayor-Elect for the year 2022-23. This was seconded by Cllr John Adams Lewis.

**e) Sefydlu gweithgor i ymgynghori ar ddyfodol Pwll Nofio Aberteifi.**  
**Cafwyd eu cynnig i adael sefydlu gweithgor i ymgynghori tan ar ôl yr etholiad yn Mis Mai pan fydd yna aelodau newydd yn y Cyngor.**

Set up a working group to consult on the future of Cardigan Swimming Pool.  
It was proposed to leave the setting up of the working group until after the May elections when there would possibly be new members in the Council.

**f) Ffens Broteifi Fence.**

**Cyfrifoldeb y Cyngor Sir yw y ffens ac mae'r mater wedi cael godi gyda'r Cyngor Sir. Y Cyng Sir lleol sef Elaine Evans i rhoi pwysau ar y Cyngor Sir i ddatrys y broblem yn fuan er mwyn iechyd a diogelwch y trigolion lleol.**

The fence is the responsibility for the County Council and the matter has been reported. Local member Cllr Elaine Evans to put pressure on the County Council to resolve the matter for the health and safety of residents.

**g) Fflag Wcrain ar wal y castell / Ukraine Flag on the castle wall.**

**Cytunwyd archebu Gobo o'r fflag Wcrain yw osod ar wal y Castell. Cafwyd hefyd y cynnig i hedfan flag Wcrain ochr yn ochr a un Cymru yn y Castell. Bydd y Cyngor yn ystyried rhoi rhodd ariannol mis nesaf i Wcrain.**

It was agreed to purchase a Gobo for the Castle wall. An offer has been made by the castle to fly the Ukraine flag next to the Welsh flag in the castle grounds, this was accepted. It was decided to discuss a monetary donation in the next council meeting.

**10. Eitemau er gwybodaeth yn unig / Items for information only**

**a) Dyddiadur y Maer.**

- **Ardal 43 – Fel un o'm dewis elusennau estynnwyd gwahoddiad i ymweld â'u cartref newydd, i gwrdd â'r bobl ifanc sy'n elwa o'u gwasanaethau a'r staff sy'n eu darparu.**
- **Mynychwyd cyflwyniad ymwybyddiaeth iechyd meddwl gan New Pathways.**
- **Cyfle i ginio gyda Cylch Cinio, Merched y Wawr a'r Cymrodorion i ddathlu Dydd Gwyl Dewi Nos Wener 25/2/22 yng Nghlwb Golf Aberteifi.**
- **Gwhaoddiad i fynychu agoriad "Y Llofft" yn Eglwys Bywyd Newydd, Mwldan Isaf, Aberteifi.**
- **Mae trefniadau ar y gweill i ymuno â'n ffrindiau o Brioude i ddadorchuddio mosaig newydd wedi'i osod yng Ngardd Brioude, ac yna derbynfa a chyngerdd i ddathlu 50 mlynedd ers ein gyfeillio.**

**Mayors' Diary.**

- **Area 43 – As one of my chosen charities an invitation was extended to visit their premises to meet the young people who benefit from their services and the staff who provide them.**
- **Attended a mental health awareness presentation by New Pathways.**
- **An opportunity to lunch with "Cylch Cinio, Merched y Wawr and Cymrodorion" to celebrate St David's Day on Friday 25/2/22 in Cardigan Golf Club.**
- **Invitation to attend the opening of "The Loft" at the New Life Church, Lower Mwldan, Cardigan.**
- **Arrangements are in hand to join our friends from Brioude to unveil a new mosaic installed in the Brioude Garden, followed by a reception and concert organised to celebrate the 50-year anniversary of our twinning.**

**b) Adroddiadau'r Cyngorwyr Sir / Reports from County Councillors.**

**Y Cyng Elaine Evans Ward Rhyd-y-Fuwch**

- **Ffoniodd Paul Williams o Gyngor Ceredigion fi i ddweud bod toiledau cyhoeddus Gerddi Fictoria yn cael eu hagor ar 15 Chwefror. Yn anffodus, ar adeg yr alwad roedd y ddau gyfleuster cyhoeddus arall yn Aberteifi wedi'u fandaleiddio, ac yn cael eu hymosod yn gyson dros nos. Mae'r cyngor yn ceisio lleihau'r gwasanaethau dros nos er mwyn osgoi**

rhagor o fandaliaeth.

- Yn ystod yr hanner tymor bu'r Gaeaf o Les yn llwyddiant, yn enwedig digwyddiadau a gynhaliwyd yn Theatr Byd Bychan. Trefnwyd nifer o ddigwyddiadau rhad ac am ddim i gynnwys dawniau creadigol cynhwysol a dosbarthiadau syrcas awyr i blant ag awtistiaeth. Roeddwn yn ddigon ffodus i fynychu un o'r dosbarthiadau syrcas awyr, ac mae'n rhaid i mi ddweud ei bod yn wych gallu mynd â fy wŷr i ddsbarth. Mae'n drueni nad oes mwy o ddsbarthiadau ar gyfer plant ag awtistiaeth, a byddai rhywbeth wythnosol/pythefnosol/hyd yn oed yn fisol yn hynod fuddiol. A dweud y gwir, roedd hi mor ffantastig i mi anfon e-bost at Janine Marchant CSC i weld a allai unrhyw gyllid gael ri roi ar waith fel y gallai achosion cynhwysol rheolaidd gael cymorthdal neu gyllid i helpu rhieni.
- Wedi cael e-bost am y padiau ar gyfer y diffibrilwyr. Defnyddiwyd un symudol Bro Teifi ac yna bu'n rhaid iddynt ddefnyddio un yr Hafod ac nawr ni allant ailosod y padiau gan ei bod yn ymddangos bod prinder ohonynt. Dywedwyd wrthyf na all hyd yn oed St Johns cael gafael ar rhai. Hefyd, os yw'r padiau wedi dyddio na fydd periannau'n gweithio, gofynnwyd i mi holi am hyn.
- Apel bocsg esgidiau #Wales4Ukraine: ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae 2 fan gollwng yn Aberteifi ar gyfer rhoddion – salon gwallt Tangled a Caffi Sgwâr y Ffinch. Yr eitemau sydd eu hangen yw pecynnau hylendid, dillad, blancedi, tuniau a pheccynnau bwyd, eitemau addysgol (papur, beiros, tegannau ac ati). Yr wyf yn siŵr y caiff yr apêl ymateb gwych yma yn Aberteifi, ac y bydd mwy o fannau gollwng yn ymddngos ymhen amser.

#### Cllr Elaine Evans Rhyd-y-fuwch Ward

- Paul Williams of Ceredigion Council rang me to advise that Victoria Gardens public toilets were being opened on 15<sup>th</sup> February. Unfortunately, at the time of the call the other two public conveniences in Cardigan had been vandalised, and are constantly under attack overnight. The council is looking to reduce the overnight services to avoid further vandalism.
- During half term the Winter of Wellbeing proved to be a success, especially classes held in Small World Theatre who held a number of free events to include inclusive creative dance classes and aerial circus classes for children with autism. I was lucky enough to attend one of the aerial circus classes, and I have to say it was fantastic to be able to take my grandson to a class. It's such a shame that there aren't more classes for children with autism, and something on a weekly/fortnightly/even monthly basis would be extremely beneficial. In fact, it was so fantastic I emailed Janine Marchant of CCC to see if there could be any funding put in place so that regular inclusive classes could be subsidised or funded to help parents.
- Received an email about the pads for the defibrillators. The Bro Teifi portable one was used and then they had to use the Hafods and are now unable to replace the pads as there is an apparent shortage of them. I've been told even St Johns can't get them. Also, if the pads are out of date the machines won't work, I have been asked to enquire about this.
- #Wales4Ukraine shoebox appeal: at the time of writing this report, there are 2 drop off points in Cardigan for donations - Tangled hair salon and Finch Square Café. Items needed are hygiene packs, clothing, blankets, food tins and packets, educational items (paper, pens, toys etc). I am sure that the appeal will have a fantastic response here in Cardigan, and that more drop off points will appear in time.

## Y Cyng Catrin Miles Ward Teifi

**COVID:** ffigyrau diweddaraf yn dal i gwympto ac ychydig iawn o achosion yn ysbyty Bronglais. Bu cynnydd sydyn ddechrau fis Chwefror yng Ngogledd y Sir, yn bennaf ymysg myfyrwyr .

**CYLLID:** gan bod arian ychwanegol wedi dod oddi wrth Lywodaeth Cymru, funud olaf, mae Cabinet wedi medru edrych ar leihau'r cynnydd i'r treth cyngor eleni. Bydd hyn yn cael ei drafod gan bob Aelod yng nghyfarfod Cyngor Sir llawn dydd lau 3 o Fawrth.

**HANNER TYMOR:** Cefais gyfweiliad hir ar Radio Cymru rhaglen Taro'r Post Garry Owen ar fore oer iawn wythnos dwetha. Roeddwn yn falch o fedru cysgodi y tu fas i DEPOT, caffii ieuentid Area43 a medru cyfeirio at y gwaith arbennig y maent yn ei wneud yna. Testun y cyfweiliad oedd yr holl weithgareddau rhad ac am ddim ar gael yn ardal Aberteifi yn ystod hanner-tymor. Cyfeiriwyd at raglen Gaeaf Llawn Lles yn Theatr Byd Bychan, sesiynnau "multisport" Ceredigion Actif, digwyddiadau Gwasanaeth Ieuentid Ceredigion, Jig-So, Dechrau'n Deg a llawer mwy. Dydd Gwener hanner-tymor daeth criw o blant i sesiwn Ray Ceredigion ym Maes Chwarae Pentop ble bu'r plant yn llenwi holiadur "Digonolrwydd Chwarae a Gofal Plant". Roedd y BBC yn awyddus i ddychwelyd i Aberteifi'n fuan i glywed mwy am yr holl weithgareddau sy'n mynd ymlaen yma. Newyddion da!

**CLONC CYNEFIN:** ddechrau'r mis, cefais wahoddiad i siarad yn lansiad prosiect Podlediadau dan ofal Tim y Siarter Iaith yng Ngheredigion. Mae'n werth-chweil chwilio amdanynt ar y we a mwynhau hanesion ledled y Sir – gan gynnwys un gwych o ddisbylion Ysgol Gynradd Aberteifi yn holi'r Cyng Clive Davies am Sadwrn Barlys a hanes y dref.

**TRWYDDEDU:** mae cais gan un o dafarndai'r ward i ymestyn eu horiau agor ac fe drafodwyd tu ol drysau caeedig.

**ACTIVE TRAVEL Heol Llandudoch:** aeth y gwaith cychwynnol yn ei flaen ar y 18/19 Chwefror yn hollol ddi-ffwdan ac edrychwn ymlaen at ddatblygiadau pellach i greu troedffordd ddiogel gydol y llwybr rhwng Aberteifi a Llandudoch.

**CEI TWYSOG SIARL:** dwi wedi rhoi cais mewn i'r Cyngor Sir i ail-beintio englyn Ceri Wyn Jones a chlanhau wal y Cei mewn da bryd cyn y Pasg.

**GOLEUADAU STRYD Golwg y Castell:** mae tua 20 golau stryd sydd ddim yn gweithio ar y stad oherwydd problem cebl. Dwi wedi cysylltu a Western Power a gofyn iddyn nhw roi blaenoriaeth i'r mater gan bod yr ardal yn dywyll iawn i'r preswylwyr.

**SGWAR GREENFIELD:** fe fydd yr hewl fach ar ochr ogleddol y maes parcio ar gau 21/3-25/3 tra bod CSC yn gwneud gwaith draenio'r briffordd i wella'r sefyllfa bresennol ble mae dwr yn gorlifo i gefn adeiladau Pendre.

## Cllr Catrin Miles Teifi Ward

COVID: figures still reducing, with only a handful of cases in Bronglais hospital. There was a sudden spike early February, mainly North of the county, affecting the student population.



**BUDGET:** due to some last-minute funding received from the Welsh Government, Cabinet has been able to look at reducing the Council Tax increase this year. This will be discussed and decided by full council in a meeting on 3rd March.

**HALF TERM:** I had a long interview on the Radio Cymru programme Taro'r Post with Garry Owen on a very cold morning last week. Glad to be able to shelter outside DEPOT, Area43's Youth Café and refer to the amazing work they do there. The interview was about all the free activities in Aberteifi during half-term. These included the Winter Well-being sessions at Small World Theatre, "multisport" activities with Ceredigion Actif, Ceredigion Youth Service's programme, Jig-So, Flying Start and others. Friday of ½ term a good crowd of children enjoyed a Play Session with Ray Ceredigion at Pentop, where they filled "Play and Childcare Sufficiency" questionnaires. The BBC is eager to return here to hear more about the many, varied activities going on here. Excellent news.

**CLONC CYNEFIN:** early Feb I was invited to speak at the launch of a Podcast project led by the Language Charter team in Ceredigion. They're well worth a listen and include stories and history from around the county, including a great one with pupils of Cardigan Junior School interviewing Cllr Clive Davies about Barley Saturday and other aspects of the town's history.

**LICENSING:** one public house in the ward has made application to extend opening hours: and this matter will be discussed in committee.

**ACTIVE TRAVEL:** preliminary work was carried out with minimal disruption on the 18<sup>th</sup>/19<sup>th</sup> February and I look forward to further developments to create a safe pavement along Brecon Terrace to complete the pathway between Cardigan and St Dogmaels.

**PRINCE CHARLES QUAY:** I've made a request for CCC to re-paint the Ceri Wyn Jones englyn and clean the wall on Prince Charles Quay in preparation for Easter.

**STREET LIGHTS Golwg y Castell:** there are around 20 lights out of order on the estate due to a failed cable. I spoke with Western Power today asking them to prioritise this issue and understand that they will do their best to get a team out this week.

**GREENFIELD SQUARE:** the road on the Northern edge of the car park will be closed 21<sup>st</sup>-25<sup>th</sup> March whilst CSC carries out essential work to improve the highway drainage there. At present, water flows into the rear of buildings alongside the Mwldan river.

### **Y Cyng John Adams-Lewis Ward Mwldan**

**Heol Stad Brynhafod - Chi wedi clywed fi yn son am Heol Brynhafod sawl gwaith yn y misoedd ddiwethaf – wel, yng nghyfarfod y cabinet o'r Cyngor Sir dydd Mawrth ddiwethaf – penderfynwyd yn swyddogol i fabwysiadu'r heol.**

**'Roedd hwn yn bendefyniad hanesyddol i drigolion y stad, ac hefyd i finnau ac 'roedd yn bleser i gael diolch ar ran y trigolion am y penderfyniad – pawb a fu ynglwm yn cynnwys swyddogion y Sir, Y Cynulliad a'r contractwr – D.C. Evans, Silian am y gwaith arbennig ac mae'n werth gweld safon y gwaith. Dyma ddiwedd y frwydr ar ol dros deng mlynedd ar hugain o frwydro a phawb yn hapus.**

**Cynllun yn Heol Gwbert - Da yw gweld fod y cynllun arafi traffig yn Heol Gwbert yn mynd yn ei flaen. 'Roeddwn yn hapus i gefnogu a hybu'r cynllun – y bwriad yw ydi arafi traffig i 20mya o**

gylchfan Rhodfa'r Felin tuag at yr Ysgol Uwchradd – hefyd bydd y palmant yn cael ei lydanu yn rhai manau ynghud a phonciau arafu a llinellau melyn. Ma pob ffydd gen i yn y contractwr – sef D.C.Evans, Silian –yr un cwmni a wnaeth y gwaith yn Heol Brynhafod. Mae'r cynllun yn rhan o Active Travel- a fydd yn sicrhau y bydd yn fwy diogel i blant a cherddwyr fynd yn ol ac ymlaen i'r ysgol ac i'r dref. Felly, edrychaf ymlaen i 'r gwaith gael ei gwblhau cyn gynted a phosib – wedi siarad a'r gweithwyr – gobeithio gorffen y gwaith ymhen rhyw fis – os bydd y tywydd yn ffafriol.

Ymateb Lee Waters -Y Dirprwy Weinidog - i'r llythyr anfonais iddo ynglun a 'killer bend' - Yr un ymateb a gafodd Cyngor y Dref - ymateb siomedig dros ben- yr un waffle – posib y bydd arwyddion ychwanegol – arwyddion y bydd neb yn cymryd unrhyw sylw ohonynt – a ffordd rhwydd iawn o beidio mynd i'r afael o ddifri, a'r man hynod beryglus yma.. A oes rhaid i rywun gael ei ladd cyn bod cynllun dderbyniol a pharhaol yn cael ei gwblhau. Dyma'r Gweindog sydd a chyfrifoldeb am wella'r amgylchedd- os bosib os nad yw yn gweld fod cadw'r cyflymdra lawr i 40mya, o fydd i leihau llygredd. Ma rhaid rhoi mwy o bwysau ar y person yma – felly mi fyddaf mewn cysylltiad eto gyda Elin Jones, Senedd Cymru ac hefyd Ben Lake ein Haelod Seneddol, i barhau gyda'r ymgyrch. Mae'r ateb yn syml – ond mae'n edrych yn debyg nad yw yn gweld ymhellach 'nai drwyn!!

#### Clr John Adams-Lewis Mwldan Ward

Brynhafod Estate Road - You will have heard me speaking about Brynhafod on numerous occasions over the last few months, and in last Tuesdays' meeting of the cabinet the County Council have decided to adopt the road. This was a historic decision for the residents of the estate, and for me, and it was a pleasure to thank everyone (on behalf of the residents) for this decision – and to thank everyone who was involved in the project including: the officials of Ceredigion County council, The Welsh Assembly and the contractors D. C Evans, Silian, on the high standard of work they have done. This is the end of a long battle over the last 10 years with a happy ending.

Gwbet Road Improvements - It is pleasing to see the road calming measures taking place on Gwbet Road. I was very happy to support this decision, with the plan being to reduce the speed limit to 20 mph from the small roundabout at Rhodfa'r Felin to the Secondary school. There will also be some pavement widening in places, as well as speed humps and yellow lineage on the roads. I have every faith in the contractors, D C Evans, Silian, in their competency in the work after completing the Brynhafod Estate Road. These improvements are part of the Active Travel scheme in ensuring a safe road for children and walkers on their way to school and town. I am looking forward to the completion of this work, which will hopefully be in approximately a months' time, if the weather permits.

Lee Waters response – Deputy Ministers response to the letter I sent in relation to the 'killer bend'. It is unfortunately the same response that the town Council has received. It is very disappointing that it looks likely there will be no improvement to this notorious black spot for accidents – we may have a few new signs. Will it take the death of a person to happen before we can see any form of improvement on this stretch of road? This is the Minister who is responsible for the environment, surely, he can see that a reduction in the speed limit to 40mph would benefit the environment too. We must put more pressure on this Minister, and I shall therefore be contacting Elin Jones AM and Ben Lake MP again with my concerns. The answer is very simple but unfortunately, they cannot see further than their noses!

#### c) **Adroddiad y Bachan Deche / Handyperson's Report**

##### i. **Cae Chwarae Brenin Siôr Sed / King George 5<sup>th</sup> Children's Play Area**

**Daeth nifer dda i sesiwn chwarae a drefnwyd gan Ray Ceredigion ar ddydd Gwener 25**

**Chwefror / A play session organised by Ray Ceredigion was well attended on Friday 25 February.**

ii. **Man chwarae amlbwrpas a chyrtau tenis/ Multi-purpose play area and Tennis Courts.**

**Dim byd o bwys i'w gofnodi /Nothing of note to record**

iii. **Maes Sgrialu /Skateboard Park**

**Dim byd o bwys i'w gofnodi /Nothing of note to record.**

iv. **Cyffredinol / General**

**Mae planwyr wedi eu lleoli o amgylch y dref ond yn anffodus cafodd un ei ddifrodi nos Sadwrn diwethaf, cafod ei symud fore Sul.**

Planters have been located around the town but unfortunately one was damaged last Saturday night, it was removed on Sunday morning.

**11. Eitemau ar gyfer yr Agenda nesaf**

**Items for the next Agenda**

- Rhodd i Wcrain/Donation to Ukraine
- Bws mini trydan/Electric mini bus

**Cynnigwyd gan y Cyng. Clive Davies and ailwyd gan y Cyng. John Adams Lewis bod y Cyngor yn mynd i bwyllgor i trafod un mater. Gadawodd Mike Lewis (Tivyside) y cyfarfod.**

Cllr Clive Davies proposed that the meeting went to council to discuss a matter, and this was seconded by Cllr John Adams Lewis. Mike Lewis (Tivyside) left the meeting.

***Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.45yh.  
There being no further business to discuss, the meeting closed at 7.45pm.***

Arwyddwyd/Signed ..... (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date .....